**TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/*PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE***

| | |
|---|---|
| **Ysgol/*School*** | **Bro Cernyw** |
| **Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum*** | **£2195** |

| | |
|---|---|
| **Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions*** | • **Rhyddhau athrawon a chymorthyddion dysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol : Hyfforddiant Cath Delve i holl staff y Cyfnod Sylfaen, Hyfforddiant "What Donaldson Looks Like in KS2'**<br><br>• **Costau rhyddhau i alluogi ymarferwyr i gydweithio yn yr ysgol ac ar draws clystyrau a rhwydweithiau ysgolion - gan gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ar y cyd a chynllunio ar y cyd : Rhyddhau Cydlynnydd TGCh i weithio ar y cyd a aelod o staff Ysgol Pentrefoelas i fapio a chyd-gynllunio'r FfCD ar draws y 2 gyfnod allweddol.**<br><br>• **Y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi pob ymarferwr sy'n cefnogi'r addysgu a'r dysgu mewn dosbarthiadau, gan gynnwys cymorthyddion dysgu/cynorthwywyr cymorth dysgu : Gyda ffocws ar Iechyd a Lles – rhyddhau cymorthyddion a staff i ymgymeryd a hyfforddiant perthnasol ee. 5 Ffordd at Les, Tyfu drwy'r tymhorau a Rhywioldeb a Pherthnasedd.** |

| | |
|---|---|
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes*** | **Yn dilyn Hyfforddiant Cath Delve bydd newid yn y ddarpariaeth a gynigir yn y Cyfnod Sylfaen. Disgwylir i hyn effeithio'n gadarnhaol ar y cynllunio a'r dulliau addysgu gan hybu egwyddorion dysgu drwy chwarae a defnydd mwy effeithiol o amgylchedd ddysgu yr ardal tu allan a thir yr ysgol. Disgwylir i'r dysgwyr gymeryd rol gynyddol wrth arwain eu dysgu eu hunain yn ogystal a dangos cynnydd yn eu hymglymiad i dasgau a heriau a osodir. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar draws y Meysydd Dysgu.**<br><br>**Bydd y FfCD wedi ei fapio ar draws y 2 Gyfnod Allweddol gyda chyfleoedd wedi eu nodi a'u cynllunio gan ddangos dilyniant a datblygiad sgiliau. Gyda chefnogaeth ac arweiniad gan y Cydlynnydd, bydd staff yn hyderus wrth gyflwyno pob agwedd o'r Fframwaith.**<br><br>**Bydd y staff wedi eu harfogi a'r gwybodaeth, sgiliau a strategaethau i ymdopi a phob agwedd o'r MDaP Iechyd a Lles. Bydd polisiau ysgol gyfan yn eu lle i gyd-fynd a'r dysgu a'r addysgu.** |

**Gwerthuso/*Evaluation***

| | |
|---|---|
| **Beth sydd wedi gweithio'n dda/*What worked well*** | **(Tachwedd 2019)**<br>**Hyd yma gwelwyd bod y newidiadau o fewn y Cyfnod Sylfaen wedi arwain at gynnydd penodol o ran Llais y Disgybl - wrth iddynt ddewis eu themau a'u trywydd dysgu mae eu hymglymiad a'u diddordeb yn gryfach, a'u brwdfrydedd i gwblhau tasgau a heriau yn y dosbarth ac oddi allan wedi dangos cynnydd.**<br><br>**Hyd yma mae'r cydlynnydd wedi bod yn cefnogi staff gyda elfennau 'diethr' y FfCD gan fodelu dulliau ymarferol a chyfleoedd i ddiwallu'r anghenion ar lawr y dosbarth.**<br><br>**Yn dilyn hyfforddiant 5 Ffordd at Les a Rhywioldeb a Phernasedd, codwyd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y staff ynglyn a'r maes ac angenhion y ddarpariaeth ar draws y 2 Gyfnod Allweddol. Arfogwyd y staff ag adnoddau addas i bwrpas. Mae cynlluniau i weithio ar cyd a'r clwstwr i ddyfnhau y ddarpariaeth o fewn ein hysgolion ac i ymgyfarwyddo ymhellach a chynnwys a gofynion y MDaP Iechyd a Lles.** |

| | |
|---|---|
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau/*Impact and Outcomes*** | |

| | |
|---|---|
| **Y Cam Nesaf/*Next stage*** | |